


## CYNGOR TREF PORTHMADOG



### **Cofnodion Cyfarfod Cyngor Tref Porthmadog a gynhaliwyd ar Zoom ar nos Fawrth Hydref 13 2020.**

**Presennol** : Cynghorwyr : Gwilym Jones ( Cadeirydd), Selwyn Griffiths, Richard Williams, Alwyn Gruffydd, Nia Jeffreys, Ian Jones, Simon Brooks, Bethan Rees Jones, Llywelyn Rhys, Aled Griffith Dafydd Lake  
Marian Roberts ( Clerc)

**Ymddiheuriadau** :Dr. Melfyn Edwards, Gareth Williams

#### **23. Adroddiad y Cadeirydd :**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod llawn cyntaf ar Zoom. Cadarnhaodd hefyd fod y Panel Staffio wedi mynd drwy'r broses ricriwtio a'i fod wedi penderfynu cynnig swydd Clerc i Marian Roberts. Cadarnhaodd y cyfarfod llawn y penderfyniad. Yna ymunodd Marian â'r cyfarfod. Estynwyd croeso i Stuart oedd yn ymuno yn ei gyfarfod swyddogol cyntaf. Anogwyd Stuart i ofyn am gymorth os oedd unrhyw fater angen esboniad. Efallai y gwelir dynion mewn cwch ar y Glaslyn ac ar y tir cyfagos yr wythnos hon. Maent yn weithwyr o Cyfoeth Naturiol Cymru ac maent yn cynnal arolwg newydd o'r gorlifdir. Roedd y Cadeirydd wedi dweud wrth Andrew Basford a oedd yn trefnu hyn y byddai gan y Cyngor ddiddordeb mawr yn eu canfyddiadau ac mae wedi addo cysylltu â'r Cyngor yn y flwyddyn newydd i wneud cyflwyniad.

Dydd Sul y Cofio – Ni fydd gorymdaith eleni ond mae'r Cadeirydd wedi cysylltu â'r Lleng Brydeinig am dorch a bydd yn gosod hon cyn 11.00 – yn glynu wrth reolau ymbellhau cymdeithasol.

Llongyfarchiadau i Fiona Giraud o Borth y Gest ar gael ei MBE.

Gosodwyd giât newydd ar gae chwarae Bodawen a ddylai barhau ychydig flynyddoedd os caiff ei pharchu.

Tydi Glenda Burke ddim wedi bod yn dda o gwbl yn ystod yr wythnosau diwethaf ac mae swyddogion Cyngor Tref Porthmadog yn anfon eu dymuniadau gorau iddi.

#### **24. Cadarnhau cywirdeb cofnodion**

Cynigiodd y Cyngh. Simon Brooks 2 welliant i fater rhif 19 yn y cofnodion.

**Penderfynwyd** : derbyn y cofnodion yn gywir wedi i'r Clerc ddiwygio geiriad mater rhif 19.

## **25. Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb**

Dymunodd y Cyngh. Simon Brooks ddatgan diddordeb yn Gohebiaeth rhif 6 gan Gyngor Tref Nefyn oherwydd ei fod ar ganol ysgrifennu adroddiad i'r Llywodraeth ar y sefyllfa dai.

Dymunodd y Cyngh. Alwyn Gruffydd ddatgan ei ddiddordeb yn y cais cynllunio ar gyfer Arfryn, Tremadog gan iddo fod yn gymydog agos i'r sawl sy'n gwneud y cais.

Dymunodd y Cyngh. Nia Jeffreys ddatgan diddordeb ym mater 28 oherwydd ei rôl fel Cynghorydd Sir Gwynedd.

### **Materion i'w dwyn gerbron :**

## **26. Cyng. Carol Hayes - Gan nad oes unrhyw sicrwydd o bryd fydd y gwaith adnewyddu a gwella gan Gyngor Gwynedd na'r Cynulliad yn cychwyn oherwydd covid -19, cynigir ein bod yn trefnu i atgyweirio'r difrod gan fandaliaeth i safle bws ger y rheilffordd fel mater brys.**

Nid oedd y Cyngh. Carol Hayes yn gallu ymuno â'r cyfarfod oherwydd problemau technegol felly cytunwyd ( o dan amgylchiadau arbennig Cofid ) i ganiatau i'r Cyngh. Nia Jeffreys siarad ar ei rhan.

Cytunwyd fod angen atgyweirio'r safle bws fel mater o frys oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch ond y dylid oedi cyn mynd i wario arno gan fod Gyngor Gwynedd yn bwriadu gosod safleoedd newydd maes o law.

**Penderfynwyd :** archwilio cyflwr y safle bws, ei wneud yn ddiogel a holi Gyngor Gwynedd pa bryd y byddant yn gosod safle newydd.

## **27. Cyng. Carol Hayes – cynnig trafod canfod lleoliad gwell ar gyfer y potiau blodau ger Thedford House yn dilyn y fandaliaeth ddiweddar**

Nid oedd y Cyngh. Carol Hayes yn gallu ymuno â'r cyfarfod oherwydd problemau technegol felly cytunwyd ( o dan amgylchiadau arbennig Cofid ) i ganiatau i'r Cyngh. Nia Jeffreys siarad ar ei rhan.

Nodwyd fod y tybiau blodau wedi cael eu gosod o flaen Thedford House a Llwyn Onn oherwydd fod unigolion oddi yno yn fodlon dyfrio'r blodau pan fo angen. Nodwyd hefyd eu bod yn cael eu fandaleiddio er iddynt fod mor agos i Swyddfa'r Heddlu. Awgrymwyd y dylai tybiau Thedford House gael eu symud o flaen siop Browsers ac y byddai perchennog neu weithiwr o'r siop yn fodlon dyfrio'r blodau. Mynegodd y Cyngh. Selwyn Griffiths mai Peter Simpson swyddog o'r Cyngor Sir oedd yn gyfrifol am leoli'r tybiau.

**Penderfynwyd :** ysgrifennu at Peter Simpson ynglyn â'r mater.

## **28. Cyng. Selwyn Griffiths – codi 10% ar bris parcio ar draeth Morfa Bychan.**

Nodwyd fod Cyngor Tref Porthmadog wedi colli allan ar refeniw sylweddol dros wyliau'r haf oherwydd pris mynediad i draeth Morfa Bychan. Nodwyd fod tref Y Bermo wedi manteisio are eu hymwelwyr drwy godi'r tâl parcio yn y dref.

**Penderfynwyd** : ysgrifennu at Iwan Evans , Pennaeth Cyfreithiol Cyngor Gwynedd i holi beth yw hawliau cyfreithiol Cyngor Tref Porthmadog ynglyn â chodi 10% ar dâl parcio ar draeth Morfa Bychan.

**29.Cyng. Seimon Brooks – Ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i holi ai'r Cyngor biau'r tir lle gosodir hysbysfwrdd Borth-y-Gest ac ai'r Cyngor biau'r hysbysfwrdd ac i holi a wŷr y Cyngor pwy sydd efo'r hawl i osod poster i a negeseuon ar yr hysbysfwrdd.**

Mynegwyd pryder ynglyn â'r diffyg deunydd Cymraeg oedd yn cael ei gynnwys yn hysbysfwrdd Borth y Gest. Nodwyd fod tudalen o'r Wylan wedi cael ei osod ynddo yn ddiweddar ac wedi cael ei difrodi gyda "English version please". Cytunwyd ei bod yn annerbyniol i'w amharchu yn y fath ffordd . Mae angen gofyn pwy sydd biau'r hysbysfwrdd a phwy sydd â goriadau i gael mynediad iddo. Holwyd hefyd pwy oedd biau hysbysfwrddau Morfa Bychan ( y Neuadd oedd yn gyfrifol amdano ac mae yntau yn nwylo Cyfeillion Morfa Bychan ) a hysbysfwrdd Tremadog ? Nodwyd nad oedd hysbysfwrdd yn nhref Porthmadog.

**Penderfynwyd** : ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i gael atebion i'r cwestiynau uchod.

**30. Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf.**

Y Cyng. Richard Williams – cais i Dŵr Cymru ddatrys y broblem llygredd yn afonydd a dyfrffyrdd Porthmadog

**31.Gohebiaeth : Rhestr aros am ateb**

Nodwyd fod y Cyngor yn parhau i ddisgwyl ymateb gan Y Dref Werdd a Dyfrig Siencyn.

**Gohebiaeth :**

**32.** Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru – Gwasanaethau bws Ysbyty Alltwen (ymateb i lythyr rhaglen Ionawr , cof. 201).  
Nodwyd fod camddehongli wedi bod ar destun y llythyr.

**Penderfynwyd** : ail yrru'r llythyr gwreiddiol gan dynnu sylw at y camddealltwriaeth.

**33.** Rhian Williams,CG - lloches bws ger Tesco (ymateb i lythyr rhaglen Chwefror).

**Penderfynwyd** : ail gysylltu efo Rhian Williams i ofyn iddi drefnu ail – lanhau'r safle gan nad oes fawr o wahaniaeth yn ei gyflwr ac i wneud cais i lanhau'r safle wrth y parc hefyd gan fod safle bws T2 yn edrych yn drwsiadus iawn o'i gymharu ag o.

**34.** Vaughan Gethin AS – gwasanaethau fasciolar (ymateb i lythyr rhaglen Mawrth cof. 251).

**Penderfynwyd** : derbyn y wybodaeth a gweld sut mae pethau'n datblygu.

**35.** Sian Jones, CG – grantiau 'Visit Wales' (ymateb i lythyr rhaglen Mawrth cof. 249).

**Penderfynwyd** : derbyn y llythyr

**36.** Lucy Dale , Calonnau Cymru – diffibrilwyr.

**36 (a).** Thomas Huws, Gwasanaeth Ambiwylans Cymru – diffibrilwyr.

Nodwyd fod y Cyngorwyr yn ymwybodol o leoliad rhai Diffibrilwyr ym Mhorthmadog a nodwyd efallai fod mwy o'u hangen mewn mannau mwy poblog o'r dref e.e.Pensyflog. Nodwyd mai da o beth fyddai sicrhau hyfforddiant CPR ar gyfer trigolion y dref fel eu bod yn gwybod beth i'w wneud tra mae rhywun yn mynd i nôl y Diffibriliwr.

Cynigiodd y Cyngh. Selwyn Griffiths ( y Cyngh. Llywelyn Rhys yn eilio ) fod pob Cynghorydd yn gweld ble mae'r Diffibrilwyr yn eu ardaloedd er mwyn canfod lle mae prinder, hefyd i holi ble mae First Responders yr ardal.

**Penderfynwyd** : gwneud archwiliad lleol yn gyntaf cyn holi am fwy o wybodaeth.

**37.** Cyngor Tref Nefyn – tai i bobl lleol.

Nodwyd bod cryn drafod wedi bod ar y mater o dai fforddiadwy i bobl leol ers degawdau a bod angen datrys y broblem ar lefel cenedlaethol. Nodwyd hefyd fod problem ail gartrefi yng nghefn gwlad nid yn unigryw i Gymru ond yn broblem mewn mannau fel Ardal y Llynnoedd ac yng Nghernyw Cynigiodd y Cyngh. Alwyn Gruffydd ( y Cyngh. Bethan Rees Jones yn eilio ) y dylid ysgrifennu llythyr o gefnogaeth i Gyngor Tref Nefyn yn eu hymdrechion i ddwyn y mater i sylw Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Caerdydd. Pasiwyd yn unfrydol.

**38.** Cyfoeth Naturiol Cymru – mynediad i Gae Chwarae Bodawen.

**Penderfynwyd** : derbyn y llythyr

**39.** Arglwydd Dafydd Elis-Thomas – diffyg tai fforddiadwy (ymateb i lythyr rhaglen Medi, cof.14).

**Penderfynwyd** : derbyn y llythyr

**40.** Adran Amgylchedd,CG – hysbysiad o fwriad i ddymchwel Tŷ Moelwyn.

**Penderfynwyd** : derbyn y llythyr

#### 41. Materion Ariannol :

##### Biliau i'w talu :

Scottish Power – trydan Nadolig 28.6.20 – 17.9.20	=	£14.79
Xerox Finance – llogi llungopiwr 1.11.20- 31.1.2021	=	£126.00
Yr Wylan – hysbyseb swydd y Clerc	=	£16.00
Alan G Jones – giat bren newydd i Cae Chwarae Bodawen	=	£360.00
Glenda Burke – cyflog Clerc mis Medi 2020	=	£603.20
Cyllid a Thollau EM – treth incwm ac yswiriant gwladol Medi 2020	=	£150.80
Glenda Burke – postio ffurflen flynyddol a dogfennau archwiliwr BDO (£2.94), inc ar gyfer y printer Medi (£16.49)	=	£19.43

##### Derbyniadau:

Llog Banc Medi 2020	=	£0.29
---------------------	---	-------

#### 42. Ceisiadau Cynllunio

Cais C20/0683/44/LL - Tir gyferbyn ag Arfryn Tremadog, LL49 9RN  
Cais ar gyfer codi tŷ unllawr.

Roedd y Cyngh. Alwyn Gruffydd wedi gadael y cyfarfod.  
Gwnaed apêl gan y Cyngh. Selwyn Griffiths ar i bawb edrych yn fanwl ar bob cais cynllunio er mwyn sicrhau nad oes rhai yn disgyn drwy'r rhwyd. ( Maent ar gael mewn manylder ar safwê Cyngor Gwynedd>Cynllunio) Dywedodd ei bod yn bwysig cyflwyno sylwadau / rhesymau os oes gan rhywun wrthwynebiad i gais. Roedd y Cyngh. Simon Brooks yn awyddus i gael gopi papur o geisiadau cynllunio.

**Penderfynwyd** : cefnogi'r cais.

Death y cyfarfod i ben am 8.30.

Marian Roberts 15.10.2020